Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Cylchlythyr demograffeg Ystadegau Cymru: Mehefin 2022

Cylchlythyr Mehefin 2022 ar gyfer defnyddwyr ystadegau Cymru ar yr ystadegau diweddaraf am boblogaeth, mudo, cartrefi a'r Gymraeg.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 6 Medi 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 6 Medi 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mehefin-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Ystadegau'r rhestr etholiadol

Cyfrifiad

Y newyddion diweddaraf am ystadegau'r boblogaeth, ONS

Ystadegau mudo

Ystadegau'r Gymraeg

Cyswllt



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mehefin-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ystadegau'r rhestr etholiadol

Ar 5 Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **bennawd ystadegol** am ystadegau'r rhestr etholiadol i Gymru ar gyfer 2021. Mae data manwl wedi'i gyhoeddi ar **StatsCymru**.

Mae ystadegau etholiadol yn gyfrifiadau blynyddol o nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru ar gofrestri etholiadol, ac sydd felly â hawl i bleidleisio. Mae **Electoral roll statistics (Swyddfa Ystadegau Gwladol)** ar gyfer etholiadau Senedd y DU ac etholiadau llywodraeth leol i'r DU ar gael ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Mae ONS wedi nodi nad yw'r ystadegau hyn yn adlewyrchu'r newidiadau i feini prawf cymhwysedd ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ers 2020. O ganlyniad, mae cofrestriadau etholiadol llywodraeth leol ar gyfer pobl 16 oed a phobl ifanc 15 oed sy'n cofrestru ymlaen llaw, yng Nghymru, ar goll o'r ystadegau hyn. Gweler **gwefan ONS am ragor o wybodaeth**.

## Prif bwyntiau

- Cyfanswm nifer etholwyr Senedd Cymru ac etholwyr llywodraeth leol a oedd wedi'u cofrestru i bleidleisio ym mis Rhagfyr 2021 yng Nghymru oedd 2,348,600.
- Roedd hyn yn gynnydd o 0.3% rhwng 1 Rhagfyr 2020 a 1 Rhagfyr 2021, er bod gostyngiad o 0.4% o'i gymharu â'r uchafbwynt ar 2 Mawrth 2020.
- Cyfanswm nifer etholwyr Senedd y DU a oedd wedi'u cofrestru i bleidleisio ym mis Rhagfyr 1 yng Nghymru oedd 2,307,900.
- Roedd hyn yn gynnydd o 0.1% rhwng 1 Rhagfyr 2020 a 1 Rhagfyr 2021, er bod gostyngiad o 0.6% o'i gymharu â'r uchafbwynt ar 2 Mawrth 2020.
- Gostyngodd cyfanswm nifer etholwyr Seneddol y DU a oedd wedi'u cofrestru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mehefin-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

i bleidleisio yn y DU  0.7% yn gyffredinol rhwng 1 Rhagfyr 2020 ac 1 Rhagfyr 2021.

# Cyfrifiad

## Cyfrifiad 2021

Ar 1 Mawrth, creodd ONS **cynllun dadansoddi yn ôl pwnc (Swyddfa Ystadegau Gwladol)** wedi'i ddiweddaru a gafodd ei greu ochr yn ochr â **rhan un o'r ymateb i'r ymgynghoriad (Swyddfa Ystadegau Gwladol)** a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr a **rhan dau (Swyddfa Ystadegau Gwladol)** a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth. Bydd y cynlluniau dadansoddi terfynol ac wedi'u ddiweddaru yn cael eu cyhoeddi ddiwedd y gwanwyn, gyda'r canlyniadau cyntaf wedi'u hamserlennu ar gyfer dechrau'r haf.

Cyhoeddodd ONS gyfrifiadau rhagarweiniol Cyfrifiad 2021 o wlad enedigol yn ôl awdurdod lleol ar gyfer Wcráin a gwledydd cyfagos neu berthnasol i helpu i gynllunio ymateb i argyfwng lleol a chenedlaethol. Mae'r **data** ar gael i'r awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.

Ar gyfer cwestiynau am yr ymgynghoriad neu allbynnau Cyfrifiad 2021 cysylltwch â: **census.outputs@ons.gov.uk**

## Cyfrifiad 1921

Ar 12 Ebrill, cyhoeddodd ONS **newly digitalised county and district level statistics on the 1921 Census (Swyddfa Ystadegau Gwladol)**.

# Y newyddion diweddaraf am ystadegau'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mehefin-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## boblogaeth, ONS

Ar 25 Chwefror, cyhoeddodd ONS **trosolwg o boblogaeth y DU yn 2020 (Swyddfa Ystadegau Gwladol)**. Mae'r trosolwg yn rhoi crynodeb o boblogaeth y DU yn 2020, gan dynnu sylw at y newidiadau a'r ffactorau sy'n cyfrannu at hyn. Mae'n canolbwyntio ar gydrannau newid yn y boblogaeth dros amser, gan gynnwys ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo.

Ar 2 Mawrth, Cyhoeddodd ONS **ganllaw ar gyfer ystadegau a ffynonellau'r boblogaeth (Swyddfa Ystadegau Gwladol)**. Mae'r canllaw hwn yn rhoi crynodeb o'r dyddiadau cyhoeddi arfaethedig ar gyfer amcangyfrifon o'r boblogaeth, ym mha ffyrdd maent yn cael eu defnyddio a'r ffynonellau data sy'n sail iddynt. Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn parhau i ddiweddaru'r dudalen hon wrth i'r cynlluniau fynd rhagddynt.

## Ystadegau mudo

Ar 1 Mawrth, cyhoeddodd y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR) **a review of international migration statistics produced by the ONS (Swyddfa Ystadegau Gwladol)**. Mae ONS wedi bod yn trawsnewid ei ystadegau drwy ddefnyddio amcangyfrifon wedi'u modelu a data gweinyddol yn hytrach na'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS).

Ar 26 Mai, cyhoeddodd yr ONS **ystadegau dros dro ar fudo rhyngwladol hirdymor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021 (Swyddfa Ystadegau Gwladol)**. Cyhoeddwyd **blog ochr yn ochr â hyn yn trafod effaith pandemig y coronafeirws (COVID-19) ar fudo rhyngwladol (Swyddfa Ystadegau Gwladol)**.

Cyhoeddwyd **ystadegau mewnfudo'r (Swyddfa Gartref)** Swyddfa Gartref

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mehefin-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

hefyd ar 26 Mai, yn cwmpasu **Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin (Swyddfa Gartref)**, **ystadegau mewnfudo (Swyddfa Gartref)** a **Chynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd (Swyddfa Gartref)**.

# Ystadegau'r Gymraeg

I gael gwybodaeth am Ystadegau'r Gymraeg, gweler **diweddariad chwarterol ystadegau Cymru**.

# Cyswllt


## Martin Parry

Rhif ffôn: 0300 025 0373

E-bost: **ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru**

## Cyfryngau

Rhif ffôn: 0300 025 8099



> **Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
> Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

> **Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
> Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mehefin-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
> Gwybdaeth am **hawlfraint**.